

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 21 IONAWR 2025 10:00

Presennol

Y Cyngorydd R Williams – Cadeirydd

RM James

Presennol – O Bell

H T Bennett

Swyddogion:

Kirsty Evans
Andrea Lee
Michael Pitman
Oscar Roberts

Uwch Swyddog Trwyddedu
Uwch Cyfreithiwr
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau
Business Administrative Apprentice - Democratic Services

Datganiadau o Ddiddordeb

78. Caniatáu Trwydded Safle ar gyfer Clwb Rygbi Blaengarw, 40 Stryd Victoria, Pontycymer, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 8NW

Y penderfyniad a wnaed	Mae'r Is-bwyllgor wedi penderfynu caniatáu'r drwydded gyda'r amodau a ganlyn: 1. Rhaid i'r safle gynnal system recordio teledu cylch cyfng digidol sy'n gallu recordio 31 diwrnod o recordiad 24 awr gyda monitor allan o olwg a chyrraedd y cwsmeriaid. Cedwir delweddau am gyfnod o 31 diwrnod. Bydd yr offer wedi'u diogelu'n briodol gyda mynediad
------------------------	--

	cyfyngedig. Bydd y system TCC yn cynnwys yr holl fannau y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt yn yr eiddo a bydd yn cynnwys mynedfeydd ac allanfeydd. Bydd y system TCC yn cael ei chynnal a'i gweithredu bob amser y mae'r eiddo ar agor i'r cyhoedd. Bydd delweddau ar gael ar gais ac o fewn 7 diwrnod i'r Heddlu neu swyddogion gorfodi eraill naill ai i USB, disg neu drwy'r system NICE a ddefnyddir gan Heddlu De Cymru, ar gais cyfreithlon gan swyddog yr Heddlu neu swyddog Awdurdod Lleol am ddim. 2. Bydd arwyddion yn cael eu harddangos o fewn y safle a rhaid iddynt ddangos bod polisi cyffuriau dim goddefgarwch yn cael ei weithredu. 3. Cofnodi achosion o wrthod gwerthu 'nwyddau â chyfyngiad oedran', i bersonau sy'n ymddangos yn dan oed, ar ffurf 'Cofrestr Gwrthod'. Y Gofrestr i'w chadw yn y safle a bod ar gael i unrhyw Swyddog Awdurdodedig ar gais i'w harchwilio. 4. Bydd arwyddion yn cael eu harddangos ei bod yn anghyfreithlon i unrhyw berson geisio prynu alcohol i berson dan 18 oed. 5. Gweithredu a gweithredu 'Cynllun Her 25' i gynnwys: Arddangos arwyddion rhybudd priodol i'r perwyl y bydd unrhyw bersonau sy'n ymddangos yn iau na 25 oed yn cael eu herio mewn perthynas â nwyddau â chyfyngiad oedran. Arwyddion o'r fath i'w harddangos wrth fynedfa'r Adeilad, a lle mae alcohol yn cael ei arddangos. Bydd staff yn gofyn i unrhyw gwsmeriaid sy'n ymddangos yn iau na 25 oed ddangos ffurf dderbyniol o ID pan fyddant yn ceisio prynu alcohol.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	21 Ionawr 2025

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen [hon](#)

Terfynwyd y cyfarfod yn 10:45